



**Cofnodion Cyngor yr Undeb**  
**Dydd Llun 30 Hydref, 6pm**  
**Prif Ystafell Undeb y Myfyrwyr**

<b>Agenda</b>	<b>Eitem</b>	<b>Nodiadau / Deilliant</b>
<b>1. Croeso a Sylwadau Agoriadol</b>	Croeso	Croesawodd Cadeirydd yr Undeb bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod, a chyflwynodd ei hun.
	Ymddiheuriadau am absenoldeb	Ammaara Nalban – Swyddog CALIE
	Cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod blaenorol	Nid oedd cworwm i'r cyfarfod blaenorol, felly does dim cofnodion.  Hysbyswyd yr aelodau bod cofnodion o'r Cyngor ar 17 Chwefror i'w gweld ar y we.
	Materion yn codi o'r cofnodion	Dim.
<b>2. Etholiad y Dirprwy Gadeirydd</b>	Araith - Anna Hunter	Traddodwyd Araith
	Araith - Rhiannon Perrett	Traddodwyd Araith
<b>3. Adroddiad y Swyddogion</b>	Bydd y Swyddogion yn trafod eu gweithgareddau ac mae hwn yn gyfle i chi gael gwybod am yr hyn maen nhw wedi ei wneud ar eich rhan.	Caiff adroddiadau gan swyddogion unigol nawr eu cyflwyno yn ystod Parthau. Cyflwynodd Swyddog Datblygu'r Undeb (SDU) adroddiad ar ran yr holl SLIA, ac mae i'w weld ar y wefan.
<b>Yn ôl at 2. Etholiad y Dirprwy Gadeirydd (canlyniad)</b>	Cyfanswm y pleidleisiau:	48
	Ymatal:	3
	cwota i ennill:	22.5
	Rhiannon Perrett	30
	Anna Hunter	8
	Pleidleisiau dros A.A.E.	7
	Canlyniad:	Etholwyd Rhiannon Perrett
<b>4. Cyngor - Eich Syniadau</b>	Byddwn yn trafod ac yna'n pleidleisio ar y Syniadau sydd wedi cael eu cyflwyno i'r Cyngor.	
<b>1</b>	<b>Gwaredu Gwellt (Matthew Poulton)</b>	
	Pleidlais	PASIWYD
<b>2</b>	<b>Compost ar y Campws (Matthew Poulton)</b>	



	Cwestiynau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Lleoliad <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Gyda'r biniau eraill</li> </ul> </li> <li>• Cynnal a chadw <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Ystadau / Gwirfoddolwyr Cadwraeth Aber</li> </ul> </li> <li>• Llygod mawr <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Biniau na all llygod gael mynediad iddynt</li> </ul> </li> <li>• Casglu <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Unwaith y flwyddyn</li> </ul> </li> <li>• Pa mor aml gaiff ei ddefnyddio (fydd dim digon o fyfyrwyr yn ei ddefnyddio?) <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Bydd gormod yn ei or-lenwi'n rhy gyflym ta beth</li> </ul> </li> </ul>
	Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)	<p>Pwyntiau a godwyd yn erbyn y Syniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darperir biniau brown gan y cyngor</li> <li>• Mae'n cymryd yn rhy hir i weld unrhyw fudd</li> <li>• Dydyn ni ddim yn awyddus i'w cael nhw ger y neuaddau</li> </ul>
	Pleidlais	NID YW'N PASIO
<b>3</b>	<b>Rydyn ni eisiau Llywydd</b>	<p>Cyflwynwyd gan Bruce Gardiner, trosglwyddwyd y Syniad hwn i Bruce Wight.</p> <p>Roedd y Syniad wedi cael ei newid ers ei gyflwyno'n wreiddiol.</p> <p>Roedd y Syniad gwreiddiol yn gofyn am newid i "Llywydd - Swyddog Datblygu'r Undeb", y gwelliant yw, yn syml, "Llywydd"</p> <p>Cytunodd y sawl a gyflwynodd y Syniad i'r gwelliant hwn, a symudwyd i drafodaeth o'r Syniad hwn gan gynnwys y gwelliant.</p>



	Cwestiynau	<ul style="list-style-type: none"><li>• Roedd 4 gwaith y cworwm yn bresennol yn y cyfarfod a basiodd y newid enw; sut mae hynny'n 'ddim ymgynghori â myfyrwyr'?<ul style="list-style-type: none"><li>◦ Does neb dwi wedi siarad â nhw'n meddwl hynny.</li></ul></li><li>• "Corff y myfyrwyr: byddai'n well gennym ni fod â Llywydd"... meddai pwy? Dim ond chi sy'n honni hyn?<ul style="list-style-type: none"><li>◦ Mae pawb dwi wedi siarad â nhw'n gofyn a ydw i'n Llywydd, dwi'n golygu 'corff y myfyrwyr' yn gyffredinol.</li></ul></li><li>• Oes gan Swyddog Datblygu'r Undeb unrhyw bwerau gweithredol ar ran y swyddogion?<ul style="list-style-type: none"><li>◦ Manylion llawn yn y fy nghylch gorchwyl, (pwynt c), dylai'r newid enw fod er mwyn hwyluso cyfathrebu ac ni fydd yn effeithio ar bwerau.</li></ul></li><li>• Ai Llywydd oedd y swydd o'r blaen?<ul style="list-style-type: none"><li>◦ Ie</li></ul></li><li>• Pam newidiodd hyn?<ul style="list-style-type: none"><li>◦ Cyfrannodd swyddogion blaenorol at yr adolygiad rôl yn 2016/17</li></ul></li></ul>
--	------------	--



	<p>Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)</p>	<p>Pwyntiau a godwyd yn erbyn y Syniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai'r teitl Llywydd yn creu hierarchiaeth ymysg y swyddogion eraill</li> <li>• Bydd yn cymryd amser i fyfyrwyr ddod i arfer â'r enw newydd</li> <li>• Mae myfyrwyr y flwyddyn gyntaf yn gyfarwydd â'r rôl fel Swyddog Datblygu'r Undeb.</li> <li>• Byddai newid y teitl i Llywydd yn gwneud y rôl yn llai eglur - dydych chi ddim yn newid y cylch gorchwyl.</li> <li>• Mae 'Llywydd' yn cyfleu'r angen am berson 'allblyg' ac 'uchel ei gloch', a gall ddarbwylllo menywod rhag ymgeisio am y rôl.</li> <li>• Mae tua 30-40 o undebau myfyrwyr heb Lywydd.</li> <li>• Mae Datblygu'r Undeb yn gwneud yn union beth mae'n ddweud</li> <li>• Nid yw'r naill deitl na'r llall yn cyfleu eich pwerau'n gywir, ond o leiaf mae Datblygu'r Undeb yn cyfleu eich cylch gorchwyl.</li> </ul> <p>Pwyntiau a godwyd o blaid y Syniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai pobl yn deall teitl Llywydd yn well na Datblygu'r Undeb</li> <li>• Mae pobl yn dal i gyfeirio at y rôl fel Llywydd, felly byddai'n eglurach pe bai ni'n ei newid yn ôl</li> <li>• Rydyn ni wastad wedi bod â Llywydd</li> <li>• Y Llywydd yw'r llefarydd, ac mewn cymdeithasau, llywyddion yw wyneb cyhoeddus y gymdeithas.</li> <li>• Mae teitl Datblygu'r Undeb yn ddryslyd</li> <li>• Fel dynes, buaswn yn ymgeisio am rôl fel Llywydd, ond nid fel Swyddog Datblygu'r Undeb</li> <li>• I lawer sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth UM, does neb yn gwybod beth mae Swyddog Datblygu'r Undeb yn ei wneud, ond os ydych chi'n dweud Llywydd, maen nhw'n gwybod yn syth.</li> <li>• Dydy'r term Llywydd ddim yn rhywiaethol; mae pobl yn clymu eu hunain mewn semanteg</li> </ul>
	Pleidlais	PASIODD
4	<b>Gwneud y Gampfa'n Hygyrch 24 Awr y Dydd (Jebbs Bowers)</b>	Nid oedd y cyflwynydd yn bresennol - ni thrafodwyd y Syniad
5	<b>Mae parthau'n strwythurau caeth; beth am ymestyn eu haelodaeth? (Bruce Wight)</b>	



	<p>Cwestiynau:</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pwy sy'n gallu mynd?             <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Esboniodd Martin Dodd (Staff): mae cyfyngiadau ar bob parth yn cynnwys pwyllgorau, swyddogion a chynrychiolwyr.</li> </ul> </li> <li>• Beth ydych chi'n ei wneud mewn parthau?             <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Codi materion a'u trafod â swyddogion a myfyrwyr eraill</li> </ul> </li> <li>• Sut fydddech chi'n darparu ar gyfer mwy?             <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Byddwn yn monitro presenoldeb a symud i leoliad mwy yn ôl y galw</li> </ul> </li> <li>• Mae gennym ni eisoes fecanweithiau adborth, sut fyddai hyn yn newid?             <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Mae'n caniatáu i fwy o fyfyrwyr fod yn bresennol a bod â lle ar gyfer trafodaethau</li> </ul> </li> </ul>
	<p>Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)</p>	<p>Pwyntiau a godwyd yn erbyn y Syniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai hyn fod yn fwy penodol i bob parth</li> <li>• Dylai pwyllgorau fod yno ar gyfer Parth Chwaraeon a Chymdeithasau</li> <li>• Doedd pobl oedd ddim yn bresennol ddim yn gwybod beth oedd yn mynd ymlaen, felly dylech chi wneud mwy i roi cyhoedduswydd iddo a chaniatáu amser i fonitro presenoldeb</li> </ul> <p>Pwyntiau a godwyd o blaid y Syniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn achos parthau, maent yn dilyn agenda, ond dydyn nhw ddim yn orfodol mewn unrhyw ffordd Does dim drwg mewn agor y mater i fyny pan na all SLIA weithredu'n gyfreithlon arno</li> <li>• Dylai pawb ar y campws fod yn gallu mynd i ba bynnag ddigwyddiadau sydd o ddiddordeb iddyn nhw</li> <li>• Mae'n gyfle i bawb ddatblygu syniadau ar gyfer y cyngor</li> <li>• Byddai parthau'n ddefnyddiol ar gyfer swyddogion, fel cyfle i ddweud wrth fwy o fyfyrwyr ynglŷn â'u gwaith a digwyddiadau</li> </ul>
	<p>Pleidlais</p>	<p>PASIODD</p>
<p><b>6</b></p>	<p><b>Na i'r FfRhA (Emma Beenham)</b></p>	



	<p>Cwestiynau:</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Beth ydych chi'n ceisio ei basio? <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Ein swyddogaeth ni fel myfyrwyr yw sicrhau nad yw'r Brifysgol yr ysgrifennu sothach er mwyn ceisio cyflawni lefel uwch</li> </ul> </li> <li>• Os nad yw'n pasio, beth fydda'i digwydd? <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Byddai'n dangos nad yw myfyrwyr yn malio am ymgynghori</li> </ul> </li> <li>• Ydy'r Brifysgol yn ymgynghori â myfyrwyr eisoes? <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Ydy, mewn rhai ffyrdd</li> </ul> </li> </ul>
	<p>Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)</p>	<p>Pwyntiau a godwyd yn erbyn y Syniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Chaiff dim ei gyflawni, bydd y Brifysgol yn gweithredu ar ei phen ei hun, beth bynnag fydd canlyniad y bleidlais hon</li> </ul> <p>Pwyntiau a godwyd o blaid y Syniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Brifysgol a'r Undeb yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a bydd hyn yn parhau i adeiladu ar y berthynas</li> <li>• Mae hyn yn gwneud ein safbwynt yn gryfach yn y bwrdd academiaidd</li> <li>• Rydyn ni am sicrhau ansawdd asesiad, yn hytrach na'i adael at ddisgresiwn y staff.</li> <li>• Hyd yn oed os dim ond grŵp bach gaiff ei ffurfio yn sgil pasio'r Syniad hwn, yna mae hynny'n well na dim.</li> </ul>
	<p>Pleidlais</p>	<p>PASIWYD</p>
<p><b>7</b></p>	<p><b>Disgleiria Diamond (Emma Beenham)</b></p>	
	<p>Cwestiynau:</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ydy hyn yn berthnasol i fyfyrwyr y DU neu fyfyrwyr rhyngwladol? <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Ansicr ar hyn o bryd</li> </ul> </li> <li>• Gaiff unrhyw un eu heffeithio'n negyddol? <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Na chânt</li> </ul> </li> <li>• Mae'r Prifysgolion mewn trafferthion ariannol, o ble daw'r arian yma? <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Y Llywodraeth</li> </ul> </li> </ul>



	<p>Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)</p>	<p>Pwyntiau a godwyd yn erbyn y Syniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dydw i ddim yn credu bod gennym ni'r gallu i ymdrin â sefyllfa o'r maint yma</li> <li>• Mae'n amheus y bydd hyn yn newid unrhyw beth, does dim digon o wybodaeth ar gael</li> </ul> <p>Pwyntiau a godwyd o blaid y Syniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Swyddog Materion Academaidd yn deall y sefyllfa ac mae angen i'r Cyngor basio'r Syniad er mwyn bod yn gallu gweithio arno ar ran myfyrwyr.</li> </ul>
	Pleidlais	PASIODD
8	<p><b>Campws Cysylltiedig Ar-lein (Bruce Wight)</b></p>	
	Cwestiynau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dim ond ar y campws?             <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ I ddechrau, gall y dref ddilyn</li> </ul> </li> <li>• Beth yw'r costau?             <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Cafwyd cyfarfod â Tim Davies (Cyfarwyddwr I.S.) a bron i hyn ddigwydd 4 blynedd yn ôl. Mae'r gost yn gymharol isel - tua £1k</li> </ul> </li> <li>• Mae'r rhyngrwyd yn methu'n aml yn fy neuaddau; ai ymgais i wella WiFi yw hyn?             <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Ie</li> </ul> </li> <li>• Campws Llanbadarn hefyd?             <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Yn y pen draw</li> </ul> </li> <li>• Mae'r sefyllfa ar y campws yn weddol dda eisoes, ond faint fyddai'n costio i ddarparu WiFi ar draws holl dref Aber? Ydy hyn yn mynd i beri mwy o broblemau WiFi yn sgil mwy o ddefnydd yn y dref?             <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Ansicr ynglŷn â'r ddau fater yma, byddem yn gweithio gydag I.S. a'r cyngor lleol</li> </ul> </li> <li>• Mae rhai pobl yn gallu dioddef effeithiau negyddol yn sgil mynediad 24/7; ydych chi wedi meddwl am hynny?             <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Mae gan fyfyrwyr fynediad i ddata symudol ta beth; gwella WiFi yw diben hyn. Byddwn yn ystyried y mater ac yn ei gynnwys ym mhrosiectau Llesiant.</li> </ul> </li> </ul>



	Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)	Pwyntiau a godwyd o blaid y Syniad: <ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'r holl adeilad hwn yn tueddu i fod yn ardal farw o ran signal</li><li>• Byddem yn gweithio ar Lesiant yn ogystal, ond fel swyddogion mae angen i ni gadw'n gyfoes a sicrhau bod gennym ni fynediad i signal ym mhobman</li><li>• Caiff ffonau eu defnyddio ym mhobman ta beth</li><li>• Bydd mwy o arian ar gael i'w wario ar fwyd os nad yw'n cael ei wario ar ddata</li><li>• Mae technoleg yn symud tua'r cyfeiriad hwn ta beth; gweithiodd hyn yn dda iawn yn fy nhref i, lle'r oedd y brifysgol yn gweithio gyda'r cyngor i ddarparu WiFi am ddim i bawb.</li></ul>
	Pleidlais	PASIWYD
<b>5. Unrhyw fusnes arall</b>	Rhoddwyd cyfle i bawb a oedd yn bresennol i godi unrhyw fater na chafodd ei drafod eisoes, neu i roi gwybod i bobl am unrhyw beth mawr a oedd yn digwydd yr wythnos honno.	
<b>6. Cofiwch y Dyddiad!</b>	Cyfarfod nesaf y Cyngor: CCB 4 Rhagfyr; dyddiad cau ar gyfer Syniadau, 20 Tachwedd	